

Cyfarfod staff – Arolygiad CIW

Ceinwen - Heddiw rwyf am siarad yn fyr am sut rydym yn paratoi ar gyfer ein harolygiad sydd ar ddod gan Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) a sut mae ein SASS Hunanasesiad o Ddatganiad y Gwasanaeth yn cefnogi broses hon. Nid yw paratoi ar gyfer arolygiad yn ymwneud a gwneud newidiadau ar y funud olaf. Yn hytrach, mae'n ymwneud a sicrhau bod ein harfer bob dydd yn adlewyrchu'r fframweithiau cyfreithiol a pholisi sy'n llywodraethu ein gwaith yng Nghymru.

Mae AGC yn ein rheoleiddio o dan Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol Cymru, (Llywodraeth Cymru, 2016), ac fel rhan o hyn rhaid i ni gwblhau SASS cyfredol (Arolygiaeth Gofal Cymru, 2023). Nid ffurflen yn unig yw'r SASS. Mae'n gyfle i ni ddangos sut rydym yn bodloni pedair thema arolygu AGC, Llesiant, Gofal a Datblygiad, yr Amgylchedd, ac Arweinyddiaeth a Rheolaeth. Mae hefyd yn ein helpu i ddangos beth yw ein cryfderau, ble mae angen gwella, a sut mae plant yn elwa o'n gwasanaeth. Os nad yw'r SASS yn adlewyrchu ein harfer gwirioneddol, bydd arolygwyr yn sylwi ar hyn yn gyflym. Rhaid i'n SASS gyd-fynd a Hadolygiad Ansawdd y Gofal blynyddol (Arolygiaeth Gofal Cymru, 2023). O dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant Cymru (Llywodraeth Cymru, 2014), rhaid i ni hyrwyddo llais, dewis, atal a llesiant. Mae'r egwyddorion hyn hefyd yn cyd fynd a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru (Llywodraeth Cymru, 2015), sy'n pwysleisio gwella canlyniadau i blant yn y tymor hir.

Ifan - Diolch Ceinwen. Fel rydych wedi son, fi sydd yn gyfrifol am lles ni fel staff ac y plant sydd yn ein gofal. Mae hyn yn bwysig i ystyried, gan taw un o themâu arolygu yr Arolygiaeth Gofal Cymru yw llesiant (Arolygiaeth Gofal Cymru, dim dyddiad). Mae'r agwedd o lesiant yn cefnogi deddf llesiant a chenedlaethau'r dyfodol (Cymru) 2015, sydd yn nodi fod angen i blant i deimlo'n ddiogel, yn cael eu gwerthfawrogi, ac yn hapus, sy'n cyfrannu at unigolion iachach a mwy gwydn (Deddf llesiant a chenedlaethau'r dyfodol (Cymru), 2015).

Mae lles staff yn hanfodol mewn lleoliadau blynyddoedd cynnar oherwydd natur emosiynol heriol y gwaith. Bydd cefnogi eich ieuchyd meddwl ac emosiynol fel ymarferwyr nid yn unig o fudd i chi ond bydd hefyd yn cael effaith gadarnhaol ar y plant rydyn ni'n gofalu amdany'n nhw. Mae gweithlu iach yn fwy ymgysylltiedig, effeithiol, ac yn gallu meithrin perthnasoedd cryf â phlant (Anna Freud Org., dim dyddiad). Mae llesiant yn agwedd hanfodol o'n gwaith o ddydd i ddydd. Mae'n hanfodol ein bod ni, fel ymarferwyr y blynyddoedd cynnar, yn cael eu cefnogi'n briodol yn eu lleoliad er mwyn teimlo'n hapus ac yn gyflawn y tu mewn a'r tu allan i'r gwaith. Gall gwella arferion lles ymarferwyr fod o fudd i'r ymarferydd unigol, a'r lleoliad cyfan (Adran Addysg, 2023). Yn arolwg diweddar gan grŵp o Loegr, darganfyddwyd taw yr anhawster mwyaf roedd ymarferwyr yn gweld yn y gwaith oedd y llwyth gwaith, ac yn gweld cydbwysu gwaith a bywyd personol yn galed, gyda'r rhesymau eraill yn cynnwys gwaith papur angenrheidiol, pryderon am ddifffyg arian yn y gweithle, a phryderon am ymweliadau gan awdurdodau megus Estyn, neu'r ACG (Douglas-Osborn et al., 2021). Felly roeddwn eisiau sicrhau eich fod yn ymwybodol byddwn ni'n digon parod i'ch gefnogi mewn unrhyw ffordd ac y gallwn, ond hefyd rydyn yn hoffi'r syniad o greu arolwg cyflym i gael eich barn. Mae arolygon yn ddull effeithiol o gasglu barn gweithwyr gan eu bod yn darparu dull strwythuredig a systematig o gasglu adborth (Kailash, 2023). Felly os rydych yn hapus byddaf yn danfon holiadur allan i chi drwy ebost yn y dyddiau nesaf, a byddaf yn gwerthfawrogi os fyddwch yn gallu ateb mor onest ac y gallwch. Gallwch rhoi eich atebion yn gyfrinachol os ydych chi eisiau.

Yn amlwg mae'n hanfodol o bwysig ein bod ni'n sicrhau fod lles ein plant yn iawn. Mae erthygl 24 yn yr Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (United Nations Convention on the Rights of the Child, neu UNCRC) yn nodi fod gan plant yr hawl i gofal ieuchyd o safon, bwyd maethlon, ac amgylchedd glân: pethau sydd yn angenrheidiol i les plentyn (United Nations, 1989). Yma yng Nghymru, cefnogir hyn gan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, sy'n sicrhau bod gwasanaethau'n cydweithio i hyrwyddo a diogelu ieuchyd a lles plant (Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru), 2014). Mae'r bil lles plant ac ysgolion yn ddarn arall o ddeddfwriaeth i'w ystyried, sy'n anelu at amddiffyn plant, gwella eu lles, cryfhau systemau diogelu, a chodi safonau mewn ysgolion a gofal cymdeithasol (Children's wellbeing and schools bill, 2024).

Mae nifer o fuddion i blentyn os mae'u lles yn iach. Mae'r blynyddoedd cynnar yn gyfnod hollbwysig ar gyfer datblygiad yr ymennydd. Mae profiadau plant yn ystod y cyfnod hwn yn llunio eu gallu i ddysgu, ffurfio perthnasoedd a rheoli emosiynau. Mae hyrwyddo lles yn helpu plant i ddatblygu gwydnwch, diogelwch emosiynol a pherthnasoedd cadarnhaol, sy'n hanfodol ar gyfer eu twf (Bright, 2025). Hefyd, mae lefel lles plentyn yn gysylltiedig yn annatod â'i gymhelliant i ddysgu. Pan fydd plant yn teimlo'n ddiogel, yn cael eu gwerthfawrogi, ac yn cael eu cefnogi, maent yn fwy tebygol o gymryd rhan mewn gweithgareddau dysgu ac archwilio eu hamgylchedd. Mae'r ymgysylltiad hwn yn hanfodol ar gyfer eu datblygiad gwybyddol a'u llwyddiant academaidd (Buckinghamshire Council, dim dyddiad). Rydym ni fel addysgwyr yn chwarae rhan hanfodol wrth gefnogi lles plant drwy greu amgylcheddau meithringar sy'n meithrin datblygiad emosiynol. Gallant helpu plant i ddeall, mynegi a rheoleiddio eu hemosiynau, sy'n gosod y sylfaen ar gyfer iechyd meddwl yn y dyfodol (Grocott, 2019).

Ond weithiau mae rhai plant yn gallu teimlo'n negyddol, neu'n cael emosiynau wael, lle mae angen i ni gymryd sylw. Rwyf wedi sylwi bod un plentyn yma wedi ynysu ei hunain rhag y plant eraill, ac i weld yn eithaf isel yn ddiweddar. Nid wyf yn siwr os mae unrhyw un arall wedi sylwi ond Archie rwy'n son am yma. Efallai yn allan o gymeriad iddo ond mae i weld yn fwy unig yn ddiweddar, ac i weld yn teimlo'n enciliedig. Shannon, byddai modd edrych mewn i hyn, i weld sut mae'n teimlo ac hefyd i weld os oes unrhyw mater diogelu yn codi yma? Byddaf yn gwerthfawrpgi hyn, a gobeithio byddwn yn gallu helpu Archie i deimlo'n well.

Ceinwen - Diolch Ifan. Mae hyn hefyd yn cysylltu a Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (Cenhedloedd Unedig, 1989), sydd yn rhoi pwyslais ar hawl plant i gael eu clywed a chymryd rhan mewn penderfyniadau sy'n effeithio arnynt. Dylai SASS ddangos sut rydym yn casglu barn plant a rhieni, sut rydym yn dysgu o ddigwyddiadau a chwynion, a pa welliannau rydym wedi gwneud o ganlyniad. Mae diogelu yn flaenoriaeth allweddol mewn unrhyw arolygiad AGC. Mae ein dyletswyddau'n seiliedig ar:

Deddf Plant 1989 (Llywodraeth EM, 1989)

Deddf Plant 2004 (Llywodraeth EM, 2004)

Gweithdrefnau Diogelu Cymru (Llywodraeth Cymru, 2023). Rwy'n meddwl bod Gemma wedi dadansoddi canlyniadau yr holiaduron rhieni mwyaf diweddar dydd Newydd dychwelyd ac am rhannu nhw gyda ni prynhawn yma hefyd.

Gemma - Diolch Ceinwen, yn gyntaf hoffen bwysleisio'r pwysigrwydd o gyfathrebu ac adeiladu perthnasoedd cryf gyda rhieni yn ogystal a'r plant yn ein gofal. Mae hyn yn bwysig oherwydd, fel y nodwyd gan gwricwlwm ar gyfer Gosodiadau Meithrin heb eu Cynnal a Chyllid (2024), pan fydd y feithrinfa wedi creu cysylltiadau cryf gyda'r cartref mae nhw'n deall mwy am gefndir y plant, a sut i gynllunio a chreu profiadau sydd yn cael effaith cadarnhaol ar eu dysgu a datblygiad. Mae'r cystylliadau yma yn helpu nhw i deimlo yn gartrefol a bod cefnogaeth ar gael wrthym ni, pan fydd angen, i bob unigolyn, sydd yn helpu iddynt deimlo'n werthfawr a'u bod yn cael eu cynnwys mewn pob agwedd o'r feithrinfa. Yn ogystal hyn nodwyd gan Lywodraeth Cymru (2017) trwy ei chanllawiau a chefnogaeth i rieni ar ymgysylltu, y rôl allweddol sydd ganddyn nhw hefyd fel rhieni wrth ddylanwadu ar ddatblygiad a chanlyniadau eu plant. Mae hyn yn uwcholeuo'r pwysigrwydd a'r angen i ni greu ac annog partneriaeth ddwy -fford rhyngom ni fel meithrinfa a rhieni. Felly, awgrymir pan fydd perthnasoedd cryf wedi datblygu rhwng y cartref a'r feithrinfa, fydd yna fwy o gysondeb sydd yn cefnogi lles a datblygiad y plant. A eto mae Ifan newydd pwysleisio am ba mor bwysig yw cefnogi lles y plant yn ein meithrinfa.

Yn ychwanegol at hyn, nodi'r gan gwricwlwm ar gyfer Gosodiadau Meithrin heb eu Cynnal a Chyllid (2024), bod cyfathrebu gyda rhieni a chasglu gwybodaeth gan gynnwys diddordebau, profiadau a hoff bethau'r plant yn helpu ni i gynllunio'n effeithiol o fewn y feithrinfa, a hefyd yn cefnogi trosglwyddiadau llyfn ac yn meithrin mwy o fwynhad a hwyl wrth i'r plant ddysgu. Mae hyn yn cael ei gefnogi gan y Gynghrair Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plant, (UNCRC,) erthygl 29, sydd yn nodi sut dylai addysg datblygu personoliaeth pob plentyn gan feithrin parch tuag at ddiwylliannau gwahanol, rhieni a'r amgylchedd (UNICEF, 1989)

Fodd bynnag, o ganlyniadau'r holiadur rieni mwyaf diweddar, dangosodd nad oedd mwyafrif o'r rhieni bob amser yn ymwybodol o'r gweithgareddau yr oedd eu plant yn gwneud yn y lleoliad, na pe bai'r gweithgareddau yma yn addas neu'n bleserus iddynt. Mae Estyn (2025), yn nodi'r pwysigrwydd o ddefnyddio holiaduron yn

enwedig i rieni er mwyn casglu safbwyntiau eang, er mwyn codi ansawdd o fewn ymarfer. Felly, meddyliaf fod angen i ni ail asesu ein ddulliau presynol o gyfathrebu gyda rhieni. er mwyn codi ansawdd o fewn y maes yma a gwneud fwy o ddefnydd o'r wybodaeth rydym yn derbyn wrthynt am ddiddordebau, profiadau a chryfderau eu plant i fwydo ein cynllunio er mwyn symud y plant ymlaen o fewn eu datblygiad. Bydd hyn yn helpu ni i gryfhau ein partneriaeth ddwyffordd rhwng y feithrinfa a'r rhieni, ac yn sicrhau bod rhieni yn fwy ymwybodol o brofiadau a datblygiad eu plant.

Felly, fel y soniwyd gan Ceinwen mae'r Datganiad Gwasanaeth Hunan Fesur (SASS) yn annog ni i werthuso'n feirniadol pa mor effeithiol yr ydym yn cyfathrebu a theuluoedd, a pha mor dda yr ydym yn gallu dangos yr effaith ar ein darpariaeth dysgu a datblygiad y plant. Wrth ystyried hyn gan baratoi ein Datganiad Gwasanaeth Hunan Fesur (SASS), mae'r holiadur wedi dangos bod yna bosibilrwydd i ni wella yn y maes yma (Arolygiaeth Gofal Cymru, 2026).

Yn bresennol rydym yn defnyddio'r ap Famly i, rhannu trefn y dydd a rhai digwyddiadau gyda rhieni ac i ddogfennu arsylwadau yn fewnol ar ddatblygiadau'r plant. Fydd Shannon hefyd yn sôn sut gall yr ap gryfhau a chefnogi ein system o gofnodi arsylwadau diogelu plant. Meddyliaf yr ydym fel tim yn cytuno bod y system ddigidol yma yn gweithio'n dda iawn i ni ar y foment (Famly, 2026).

Mae'n amlwg eleni rydym wedi codi ansawdd ar ein system arsylwi a chofnodi datblygiadau'r plant wrth ddefnyddio'r ap. Fel y nodir gan y Cwricwlwm ar gyfer Gosodiadau Meithrin heb eu Cynnal a Chyllid (2024), ein rol ni yw darparu amgylchedd ystyrlon sydd yn caniatáu cyfleoedd dysgu cyfoethog, ac arsylwi'n ofalus ar y datblygiad o fewn taith dysgu pob unigolyn. Roedd y system o gofnodi arsylwadau gan ddefnyddio nodiadau cyflym yn y foment ar ffurf post-its, fel y nodir gan McMahon a Harvell, (2016), ddim pob tro yn creu darlun cyflawn o sgiliau'r plentyn, ac ar adegau roedd gwybodaeth yn cael ei golli oherwydd yr angen i gofnodi'r digwyddiad yn gyflym, i osgoi anghofio'r wybodaeth. Mae'r ap yma wedi ei wneud yn bosibl i ni recordio'r plant a thynnu lluniau yn y fan wrth iddynt chwarae sydd yn fuddiol wrth arsylwi, er mwyn cael darlun llawn o ddatblygiad y plant (Famly, 2026).

Felly, gan ystyried llwyddiant yr ap wrth godi ansawdd ein system arsylwi, hoffwn awgrymu sut y gallwn wneud mwy o ddefnydd ohono, trwy rannu ein harsylwadau yn ddigidol trwy'r ap gyda rhieni, i wella ein system cyfathrebu, trwy rannu tystiolaeth o ddysgu a datblygiad y plant yn fwy effeithlon. (Famly, 2026).

Caiff hyn neu gefnogi gan Mishra, (2024) sydd yn awgrymu sut mae cyfathrebu digidol yn gwella cyfranogiad a chyfathrebu rhwng rhieni oherwydd y gallu i arddangos gwybodaeth a tystiolaeth o ddatblygiad plant yn y foment, yn gyflym ac yn syth, sydd hefyd yn cefnogu eu taith bersonol.

Fodd bynnag, bydd angen i ni fod yn eithriadol o ofalus ac yn hollol ymwybodol o ofynion GDPR a diogelu pe baem ni yn penderfynu treialï'r ap fel ateb i'r nod, o godi ansawdd o fewn y maes. Bydd angen sicrhau na fydd luniau, fideos neu dystiolaeth unrhyw blentyn arall heblaw'r plentyn yn y llun yn cael ei rhannu gydag unrhyw riant neu warchodwr arall (Llywodraeth Cymru, d.d).

Shannon - Diolch. Rwy'n falch iawn o glywed Ifan eich bod yn gwirio ar Archie ynghylch ei lesiant. Fodd bynnag, rwyf am ddilyn hyn ymlaen fel eich Swyddog Diogelu, oherwydd gyda Archie wedi bod yn fwy tawel ac encilgar yn ddiweddar, mae'n rhaid i ni ystyried pryderon diogelu. Yn ôl Gofal Cymdeithasol Cymru (2025), gall fod pryderon o esgeulustod, cam-drin ac ati.

Felly, gyda'r arolygiad ar ddod, mae Ceinwen a minnau wedi penderfynu gwneud ychydig o newidiadau. Mae hyn yn arwain at faes Arweinyddiaeth a Rheolaeth yr Adolygiad Ansawdd Gofal (Douglass, 2019). Rydym i gyd yn ymwybodol o'r polisi a'r weithdrefn diogelu yma yn y feithrinfa, ac fel rhan o'r weithdrefn mae'n rhaid i bryderon ac adroddiadau diogelu ddod ataf fi neu at Ceinwen. Gan ddilyn Gweithdrefnau Diogelu Cymru (dim dyddiad), fel gweithwyr proffesiynol mae gennym ddyletswydd gofal i gadw plant yn ddiogel rhag unrhyw berygl neu niwed, ac felly mae gennym y ddyletswydd a'r cyfrifoldeb i adrodd unrhyw bryderon.

Er mwyn sicrhau nad yw unrhyw bryderon sydd wedi'u hysgrifennu ar bapur yn mynd ar goll, rydym wedi ei gwneud yn haws i chi adrodd drwy ddefnyddio Ap Famly Meithrinfa Cwrt y Dderi (dim dyddiad) i gofnodi pryderon yn ddigidol. Bydd hyn i gyd

yn cael ei sefydlu a'i ddangos i chi cyn yr arolygiad. Credwn fod hyn yn ffordd ymlaen ac yn welliant yn safon gofal o ran cadw ein plant yn ddiogel, yn ogystal â bod yn ffordd gadarnhaol o ddefnyddio'r ap.

Anona – Codais bryder ynghylch Celt; a oes unrhyw ddilyniant wedi bod ar hyn, os gwelwch yn dda?

Shannon - Diolch Anona am godi'r pryder hwn a'i ddwyn i fy sylw. Tra ein bod yma, hoffwn adael i chi i gyd wybod bod pryder wedi'i godi ac mae cais am ffurflen aml-asiantaeth – MARF wedi cael ei wneud ynghylch Celt Department of Education (2021). Mae briwiau anarferol wedi cael eu gweld ar freichiau Celt. Felly, os gallwn ni i gyd gadw llygad barcud ar Celt a'i deulu, ac adrodd unrhyw ymddygiad neu bryderon amlwg, byddai hynny'n werthfawr. Efallai y bydd hefyd yn datgelu rhywbeth os bydd yn siarad, yn enwedig gan ei fod efallai wedi bod yn encilgar ac wedi dangos newid yn ei ymddygiad (NSPCC, 2025).

Mae'n rhaid i ni i gyd sicrhau ein bod yn cofio ein polisi cyfrinachedd o fewn y lleoliad, yn ogystal â'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data – GDPR, ynghylch rhannu gwybodaeth (GOV.UK, 2018). Mae'n bwysig nad yw unrhyw wybodaeth ynghylch plant yn cael ei rhannu gydag unrhyw un arall. Hefyd, mae'n rhaid i ni gofio Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (UNCRC) (Unicef, 1989), Erthygl 28, sy'n nodi bod gan bob plentyn yr hawl i addysg. Mae'n rhaid i ni barchu hawliau ac urddas pob plentyn, a sicrhau bod y feithrinfa yn lle diogel i bob plentyn, er gwaethaf eu cefndiroedd.

Fel y Swyddog Diogelu, rwyf hefyd yn cofnodi unrhyw bryderon diogelu drwy MyConcern (Tes, 2020) er mwyn cofnodi, rheoli a monitro pryderon diogelu am blant. Mae hyn yn cefnogi Deddf Safonau Gofal 2000 (GOV.UK, 2000), gan ei bod yn ei gwneud yn ofynnol i leoliadau amddiffyn lles plant a chadw cofnodion diogelu cywir.

O ran caniatâd, Gemma, os gallet ti ofyn am ganiatâd gan rieni ynghylch postio lluniau o'u plant. Mae'n rhaid i ni gadw plant yn ddiogel, ac ni ddylid anfon lluniau o blant ond at eu rhieni. Mae hyn yn cyd-fynd â chanllawiau y llywodraeth (GOV.UK,

2019) ar gyfer lleoliadau blynyddoedd cynnar i ddiogelu plant, ac mae hefyd yn cael ei amlygu yn Llawlyfr Arolygiaeth Gofal Cymru (2022) – protocol rhannu gwybodaeth.

Mae'n rhaid i ni hefyd ystyried y plant yn ein gofal sydd yn blant maeth pan fyddwn yn postio lluniau ar yr ap. Yn ôl Foster Care Link (2023) – Polisi'r Rhyngrwyd a'r Cyfryngau Cymdeithasol – mae postio lluniau o blant maeth fel arfer wedi'i wahardd neu gall fod wedi'i gyfyngu'n sylweddol. Mae hyn er mwyn diogelu eu preifatrwydd, eu diogelwch a'u statws cyfreithiol. Felly, os gwelwch yn dda, byddwch yn ymwybodol pan fyddwch yn postio lluniau o blant.

Mae hyn i gyd yn gysylltiedig â gofal o ansawdd uchel ym Meithrinfa Cwrt Y Deri ac yn dilyn Safonau Gofynnol Cenedlaethol (Llywodraeth Cymru, 2023) Safon 20 Diogelu Adran 20.1 bod pob plentyn yn ein gofal yn brif flaenoriaeth i ni ac yn nodi bod yn rhaid i ni fel staff ac oedolion gymryd cyfrifoldeb.

Gemma - lawn, dim problem Shannon, mae'n hanfodol ein bod yn sicrhau ein bod yn cyd ymffurfio gyda gofynion GDPR. Felly, mae sawl mantais o ddefnyddio'r ap yma er mwyn codi ansawdd, trwy gasglu gwybodaeth ar unwaith wrth arsylwi a'i gysylltu gyda'r llwybrau dysgu mae hefyd nid yn unig yn lleihau ein gwaith ni ond hefyd yn cadw rhieni yn fwy gwybodus am yr hyn mae eu plant yn ei wneud a dysgu yn y feithrinfa.

Beth yw eich barn chi ar y syniad yma?

Shannon - Syniad da, yn meddwl ei fod yn ateb y nod o ganylyniadau'r holiadur a bod angen i ni i ddefnyddio fwy o systemau digidol o fewn y feithrinfa i leihau pwysau gwaith a bod cyfathrebu gyda rieni mor bwysig pan yr ydym yn meddwl am y cwriciwlwm a creu profiadau perthnasol i'r plant.

Anona –

Cytuno Shannon, hoffwn hefyd drafod sut y gallen ni godi ansawdd o fewn ein adran Anghenion Dysgu Ychwanegol, Fel arweinydd yr adran mae fy rôl yn ymestyn y tu hwnt i adnabod anghenion unigol plant, maent yn gynnwys sicrhau bod yr holl dîm

yn gweithredu mewn modd cynhwysol o ddydd i ddydd. Pwysleisir pwysigrwydd adnabod anghenion yn gynnar o fewn y Cod ADY (Llywodraeth Cymru, 2021), gan fod hyn yn gallu atal anawsterau rhag gwaethygu dros amser (Llywodraeth Cymru, 2021; Estyn, 2018). Fodd bynnag, yn ymarferol, gall gweithredu hyn fod yn heriol oherwydd cyfyngiadau o ran amser, adnoddau a chyfleoedd hyfforddi, sy'n gallu effeithio ar gysondeb y ddarpariaeth (Estyn, 2018; Webster and Blatchford, 2019).

O safbwynt damcaniaethol, mae cynhwysiant wedi'i ddehongli mewn amrywiaeth o ffyrdd. Mae Ainscow (2020) yn pwysleisio'r angen i ddileu rhwystrau i ddysgu, tra bod Florian (2017) yn dadlau dros addasu addysgeg yr ymarferydd yn hytrach na lleoli'r broblem o fewn y plentyn. Mae hyn yn cyd-fynd â safbwyntiau cyfoes sy'n canolbwyntio ar systemau ac amgylcheddau dysgu cynhwysol (Florian and Black-Hawkins, 2017). Er bod y safbwyntiau hyn yn cynnig sail gadarn i arfer cynhwysol, gall eu gweithredu mewn cyd-destunau go iawn fod yn gymhleth, yn enwedig wrth gydbwysu anghenion unigol a darpariaeth gyffredinol (Norwich, 2018).

Fel y soniwyd Gemma yn gynharach mae cyfathrebu â rhieni yn elfen ganolog wrth gefnogi plant yn enwedig plant ag anghenion dysgu ychwanegol. Dengys ymchwil fod cydweithio effeithiol â rhieni yn cael effaith gadarnhaol ar ganlyniadau a lles plant. Mae rhieni'n cynnig dealltwriaeth unigryw o anghenion eu plentyn, ond ni ddylid cymryd yn ganiataol bod pob rhiant yn gallu neu'n dymuno ymgysylltu yn yr un modd (Hayes, 2020). Gall ffactorau megis cyfyngiadau amser, rhwystrau ieithyddol neu brofiadau blaenorol negyddol effeithio ar ymgysylltiad (Murphy and Tierney, 2020). O ganlyniad, gellir dadlau nad yw partneriaeth effeithiol yn datblygu'n naturiol, ond yn gofyn am ymdrech fwriadol gan y feithrinfa er mwyn datblygu perthnasau cadarn a chynhwysol (Llywodraeth Cymru, 2021).

Fodd bynnag, mae'n bwysig cydnabod nad yw deall anghenion plentyn yn broses sefydlog. Mae anghenion plant yn newid dros amser, gan bwysleisio pwysigrwydd asesiadau parhaus a dulliau ymatebol o addysgu (Llywodraeth Cymru, 2022). Gellir gweld hyn yn y feithrinfa, gyda Joshua sydd ag Awtistiaeth (ASD).

Mae Joshua yn cyfathrebu heb ddefnyddio iaith lafar ac nid oes ganddo ymwybyddiaeth o berygl, sy'n golygu bod angen ystyried ei ddiogelwch a'i les mewn

ffordd holistaidd. Trwy gyfathrebu â rhieni a chynnal arsylwadau systematig gan staff, daeth yn amlwg nad oedd yr amgylchedd presennol yn diwallu eu anghenion synhwyrdd yn llawn. Mae ymchwil diweddar yn dangos bod prosesu synhwyrdd yn ffactor allweddol sy'n effeithio ar ymddygiad ac ymgysylltiad mewn plant ag Awtistiaeth (ASD) (Ashburner et al., 2019).

Mewn ymateb, bu'n rhaid i ni addasu'r amgylchedd dysgu er mwyn hyrwyddo cynhwysiant i Joshua. Roedd hyn yn cynnwys defnyddio cymorth gweledol, darparu adnoddau synhwyrdd a strwythuro'r amgylchedd mewn ffordd ragweladwy. Dengys y National Autistic society (2025) fod defnyddio cymorth gweledol a strwythur yn gallu gwella ymgysylltiad a lleihau pryder mewn plant ag ASD.

Serch hynny, fe gododd heriau ymarferol mewn perthynas â chyllid ac adnoddau. Nid oedd bob amser yn bosibl prynu adnoddau arbenigol, gan olygu bod angen mabwysiadu dull creadigol (Maciver et al., 2019). Mae hyn yn tynnu sylw at fwch rhwng polisïau cynhwysol a realiti ymarferol mewn lleoliadau blynyddoedd cynnar (Webster and Blatchford, 2019).

Er bod deddfwriaeth megis Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 yn pwysleisio hawl pob plentyn i gefnogaeth briodol, gall cyfyngiadau adnoddau effeithio ar weithrediad y polisïau hyn (Llywodraeth Cymru, 2018; Estyn, 2018). Yn ogystal, mae ymchwil yn pwysleisio nad yw addasiadau ffisegol yn unig yn ddigon i sicrhau cynhwysiant gwirioneddol, gan fod angen newid diwylliannol ac addysgol ehangach (Ainscow et al., 2019).

Mae hyn yn amlygu pwysigrwydd arweinyddiaeth effeithiol ac ei bod yn chwarae rôl allweddol wrth hyrwyddo diwylliant cynhwysol, datblygu staff a sicrhau arferion cynaliadwy (Day et al., 2016). Dengys ymchwil fod arweinyddiaeth gynhwysol yn gysylltiedig â gwell canlyniadau i holl blant (Ainscow et al., 2019).

Felly, mae yn dangos bod gweithio mewn partneriaeth â rhieni, addasu'r amgylchedd dysgu a myfyrio'n feirniadol ar arferion proffesiynol yn hanfodol wrth gefnogi plant ag anghenion dysgu ychwanegol. Fodd bynnag, mae cynhwysiant yn parhau i fod yn broses gymhleth sy'n gofyn am arweinyddiaeth effeithiol, datblygiad proffesiynol parhaus a defnydd creadigol o adnoddau er mwyn sicrhau bod pob plentyn yn cael cyfle cyfartal i ddysgu a datblygu mewn amgylchedd diogel a chefnogol.

Ceinwen - Mae recriwtio diogel yn rhan bwysig o ddiogelu. Mae hyn yn cynnwys gwiriadau DBS, gwirio geirdaon a chadarnhau cymwysterau cyn i staff ddechrau gweithio gyda phlant. Er mwyn gwella ein harfer gallwn sicrhau bod gwiriadau DBS yn gyfredol, bod cofnodion staff yn cael eu monitro'n rheolaidd, a bod diogelu yn cael ei drafod mewn goruchwyliaeth staff. Bydd arolygwyr AGC yn edrych nid yn unig a oes gan staff wiriadau DBS, ond hefyd ar sut rydym yn rheoli recriwtio diogel fel rhan o system ddiogelu effeithiol. O dan Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol Cymru (Llywodraeth Cymru, 2016) rhaid i ni gyflogi staff addas. Rhaid i staff hefyd ddilyn Cod Ymarfer Proffesiynol ar gyfer Gofal Cymdeithasol (Gofal Cymdeithasol Cymru, 2022). Fel meithrinfa heb ei chynnal, rhaid hefyd cydymffurfio ag Adran 6.1 o Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant Rheoleiddiedig ar gyfer Plant hyd at 12 Oed (Llywodraeth Cymru, 2022). Mae hyn yn cynnwys cymarebau oedolyn i blentyn priodol, staff cymwys, goruchwyliaeth a datblygiad proffesiynol.

Mae rhyngweithio o ansawdd uchel gyda phlant yn bwysig iawn o dan themau "Llesiant" a "Gofal a Datblygiad" (Arolygiaeth Gofal Cymru, 2023). Mae ein harfer hefyd yn cyd fynd a Cwricwlwm i Gymru (Llywodraeth Cymru, 2022), sydd yn hyrwyddo dysgu trwy chwarae a datblygiad cyfannol plant.

Hannah - Diolch Ceinwen. Gan fod arolygiad ar ddod, rwy'n credu ei fod yn bwysig bod ein hyfforddiant yn gyfredol a bod pawb yn gwybod beth maent yn ei wneud.

Mae hyfforddiant ASD yn cyfeirio at raglenni addysgol a gweithdai sydd wedi'u cynllunio i gynyddu gwybodaeth, ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o gyflyrau'r sbectwm awtistiaeth. Byddai'n cwmpasu ystod o bynciau i wella rhyngweithio a chymorth (National Autistic Society, 2025). Rwy'n credu y fwyaf ohonom sydd yn cael yr hyfforddiant hwn y gorau bydd hynny, oherwydd bydd yn gwella cymorth ar rhyngweithio gyda'r plant. Byddai hefyd yn rhoi trosolwg cyffredinol gyda'r nod o gynyddu dealltwriaeth, lleihau stigma a gwella rhyngweithiau. Mae ASD yn gyflwr niwroddatblygiadol sy'n effeithiol ar gyfarthrebu, rhyngweithio cymdeithasol ac ymddygiad, ac mae fel arfer yn ymddangos yn gynnar yn ystod plentyndod. Mae'n

sbectrwm oherwydd ei fod ym mhob unigolyn, o fod angen cefnogaeth ddyddiol sylweddol i fyw'n annibynnol.

Yn ogystal â hynny, bydd angen i mi edrych ar ein cymarebau staff i sicrhau bod y plant yn cael yr addysg o'r ansawdd gorau. Mae cymarebau staff yn cynrychioli'r nifer ofynnol o aelodau staff cymwys sydd yn bresennol ar gyfer nifer benodol o blant mewn gofal (gov.uk, 2023). Yng Nghymru, mae cymarebau staff i blant mewn ysgolion cynradd yn dibynnu ar oedran. Ar gyfer plant rhwng tair a saith oed mewn gofal plant rheoledig, dylai'r gymhareb staff i blant fod yn 1:8. Rhaid defnyddio cyllid EIG i gefnogi'r gofyniad i ddarparu cymarebau staff i ddysgwyr yn y Cyfnod Sylfaen (gov.wales, 2018). Fodd bynnag, mae'r gymhareb 1:30 ar gyfer babanod yn caniatáu ar gyfer eithriadau penodol, er enghraifft, fel disgyblion ag anghenion addysgol arbennig neu blant a dderbynnir y tu allan i'r rownd derbyn arferol. Rwy'n meddwl bod ein cymarebau ar hyn o bryd yn gywir ac yn addas i gefnogi'r disgyblion. Mae Arolygiaeth Gofal Cymru (CIW) yn rheoleiddio gofal plant a gwasanaethau chwarae yng Nghymru yn seiliedig ar y safonau cenedlaethol lleiaf. Ar gyfer gofal plant rheoledig yng Nghymru, mae'r rhain yn gosod cymarebau staff i blant lleiaf gorfodol i sicrhau diogelwch, goruchwyliaeth a gofal o ansawdd uchel (CIW, 2025).

Hefyd, yr hyn y mae angen ei ystyried yw delio â staff sydd ar absenoldeb salwch. Mae rheoli staff sydd i ffwrdd oherwydd salwch yn gofyn am gydbwysedd rhwng empathi a chydymffurfiaeth, gyda ffocws ar gyfathrebu, cadw cofnodion a chefnogi eu dychweliad i'r gwaith. Byddai camau allweddol yn cynnwys gorfodi polisi a chadw mewn cysylltiad rheolaidd, yn ogystal ag archwilio addasiadau rhesymol. Mae NHS Wales yn nodi y dylai ysgolion hyrwyddo diwylliant iechyd cadarnhaol a darparu cefnogaeth ar gyfer adsefydlu yn hytrach na chanolbwyntio ar nifer yr absenoldebau. Mae Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 yn nodi bod yn rhaid i ddarparwyr ddangos bod ganddynt ddigon o staff cymwys a chymwysedig ar gael bob amser, sy'n cynnwys rheoli absenoldebau'n effeithiol.

Mae Arolygiaeth Gofal Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i ddarparwyr gwasanaethau gofal gael polisiâu cadarn ar gyfer salwch staff er mwyn sicrhau diogelwch, llesiant a gofal (CIW, 2025). Un ffordd o osgoi'r broblem hon o bosibl, sef rhywun or staff i ffwrdd oherwydd salwch ac mae diffyg staff, ffordd o osgoi hyn fyddai cael mwy o staff. Byddai hynny'n golygu mai'r ateb i'r broblem fyddai bod yn uwchrifol.

Mewn addysgu, mae uwchrifol (supernumerary) yn golygu bod hyfforddai yn ychwanegol at y nifer staffio gofynnol ac nid yw'n cael ei gyfrif fel rhan o'r gweithlu. Byddai hyn yn golygu y byddai pâr ychwanegol o ddwylo ar gael i helpu os oes angen.

Felly, mae angen cymryd hyn i ystyriaeth cyn yr arolygiad.

Ceinwen - O dan Rheoliad Cyffredinol y DU ar Ddiogelu Data (Undeb Ewropeaidd, 2016) a Deddf Diogelu Data 2018 (Llywodraeth EM, 2018) rhaid i ni drin data plant yn ddiogel ac yn gyfrinachol. Gall arolygwyr wirio ffeiliau plant a staff i sicrhau bod ein harfer yn cyd fynd a'r gyfraith. Rhaid i ni gydymffurfio a Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith ac ati 1974 (Llywodraeth EM, 1974) Safonau Gofynnol Cenedlaethol (Llywodraeth Cymru, 2022). Mae hyn yn cynnwys asesiadau risg dyddiol, ymarferion tân a monitro damweiniau.

I gloi y cyfarfod hyn ni ddylid cwblhau'r SASS ar frys nac er mwyn cydymffurfiaeth yn unig. Dylai ddangos ein bod yn diogelu'n effeithiol, hyrwyddo llesiant, ac yn myfyrio'n barhaus ar ein harfer.

Diolch am eich proffesiynoldeb parhaus a ymrwymiad.

Cyfeirnod

Adran Addysg (2023). *Help for Early Years Providers : Early Years Practitioner Wellbeing Support*. [online] help-for-early-years-providers.education.gov.uk. Ar gael: <https://help-for-early-years-providers.education.gov.uk/support-for-practitioners/early-years-practitioner-wellbeing-support> (Darllenwyd: 15 Mawrth 2026).

Advisory, Conciliation and Arbitration Service (2024) Managing employee sickness absence. Ar gael: <https://www.acas.org.uk> (Darllenwyd: 14 Mawrth 2026).

Afterschool and Breakfast Clubs Cymru (2025) Open access play: staffing ratios tool for children aged 8–12. Ar gael: <https://www.aggcc.cymru> (Darllenwyd: 14 Mawrth 2026).

Ainscow, M.

(2020) *Promoting inclusion and equity in education: lessons from international experiences*. Nordic Journal of Studies in Educational Policy, 6(1), pp. 7–16. (Darllenwyd 15 Mawrth 2026).

Ainscow, M., Booth, T. and Dyson, A.

(2019) *Inclusion and equity in education: making sense of global challenges*. Prospects, 49(3–4), pp. 123–134. (Darllenwyd: 15 Mawrth 2026).

Anna Freud Org. (n.d.). *Early years staff wellbeing: a resource for managers and teams*. [online] Available at: <https://www.annafreud.org/resources/under-fives-wellbeing/early-years-staff-wellbeing-a-resource-for-managers-and-teams/> (Darllenwyd: 16 Mawrth 2026).

Arolygiaeth Gofal Cymru. (d.d.) *How we inspect childcare and play services*. Available at: <https://www.careinspectorate.wales/how-we-inspect-childcare-and-play-services> (Darllenwyd: 15 Mawrth 2026).

Ashburner, J., Ziviani, J. and Rodger, S. (2019)

‘Sensory processing and classroom emotional, behavioural, and educational outcomes in children with autism spectrum disorder’, *American Journal of Occupational Therapy*, 73(1), pp. 1–10. (Darllenwyd: 16 Mawrth 2026).

Ben-Sasson, A., Gal, E., Fluss, R., Katz-Zetler, N. and Cermak, S.A. (2019)

‘Update of a meta-analysis of sensory symptoms in ASD’, *Journal of Autism and Developmental Disorders*, 49(12), pp. 4974–4996. (Darllenwyd: 15 Mawrth 2026).

Bright, B. (2025). *Supporting Emotional Wellbeing in the Early Years: Building Resilience from the Start - Foundation Years*. [online] Foundation Years - Latest

news, policy and resources for early years professionals. Ar gael: <https://www.foundationyears.org.uk/2025/11/supporting-emotional-wellbeing-in-the-early-years-building-resilience-from-the-start/> (Darllenwyd: 15 Mawrth 2026).

Buckinghamshire Council. (n.d.). *Wellbeing | Early Years*. [online] Available at: <https://earlyyearsweb.buckinghamshire.gov.uk/health-and-wellbeing/wellbeing/> (Darllenwyd: 17 Mawrth 2026).

Care Inspectorate Wales (2025) Regulation and inspection of social care (Wales) Act 2016. Ar gael: <https://www.careinspectorate.wales> (Darllenwyd: 15 Mawrth 2026).

Care Inspectorate Wales. (2026). *SASS 2026 is now open – complete your self-assessment of service statement | Care Inspectorate Wales*. Ar gael <https://www.careinspectorate.wales/sass-2026-now-open-complete-your-self-assessment-service-statement> (Darllenwyd: 7 Mawrth 2026).

Careinspectorate.wales. (2026). *Updated guidance on completing the quality of care review now available | Care Inspectorate Wales*. Ar gael: <https://www.careinspectorate.wales/updated-guidance-completing-quality-care-review-now-available> (Darllenwyd: 4 Mawrth 2026).

Care Inspectorate Wales (2024). *Home | Care Inspectorate Wales*. Ar gael: <https://www.careinspectorate.wales/> (Darllenwyd: 4 Mawrth 2026).

Children's Wellbeing and Schools Bill (2024) *Children's Wellbeing and Schools Bill*. London: UK Parliament. (Darllenwyd: 17 Mawrth 2026).

CIW. (2022). *Information sharing protocol between CIW and local authorities of Wales*. Ar gael: <https://www.careinspectorate.wales/sites/default/files/2023-10/311023-Information-Sharing-Protocol-Local-Authorities-EN.pdf> (Darllenwyd: 11 Mawrth 2026).

Day, C., Gu, Q. and Sammons, P.

(2016) *The impact of leadership on student outcomes: how successful school leaders use transformational and instructional strategies*. Educational Administration Quarterly, 52(2), pp. 221–258.

Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru), (2014) *Social Services and Well-being (Wales) Act 2014*. London: The Stationery Office).

Deddf Llesiant cenedlaethau'r dyfodol (Cymru) (2015) *Well-being of Future Generations (Wales) Act 2015*. London: The Stationery Office. (Darllenwyd: 17 Mawrth 2026).

Department of Education (2021) *Multi-agency reform: Key behavioural drivers and barriers*. Ar gael:

https://assets.publishing.service.gov.uk/media/61b9c9d6e90e070441bcf9b8/MultiAgencyReform_Kantar_Report.pdf (Darllenwyd: 5 Ionawr 2026).

Donaldson, G.

(2020) *Successful Futures: Independent Review of Curriculum and Assessment Arrangements in Wales*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. (Darllenwyd: 16 Mawrth 2026).

Douglas-Osborn, E., Lyons, R., Nelinger, A., Linehan, T., Bristow, K. and Law, E. (2021). *Early years staff wellbeing: a resource for managers and teams*. [online] Available at: https://www.westmorlandandfurness.gov.uk/sites/default/files/2025-09/early_years_staff_wellbeing_-_a_resource_for_managers_and_teams_0.pdf (Darllenwyd: 13 Mawrth 2026).

Douglass, A. (2019), "Leadership for quality early childhood education and care", *OECD Education Working Papers*, No. 211, OECD Publishing, Paris, <https://doi.org/10.1787/6e563bae-en> (Darllenwyd: 26 Mawrth 2026).

Education Wales. (2022). *A guide to Curriculum for Wales 2022*. Ar gael: <https://hwb.gov.wales/storage/f8f9760c-64a1-48ea-80fd-db130ad9050b/a-guide-to-curriculum-for-wales-2022.pdf> (Darllenwyd: 7 Mawrth 2026).

Estyn (2018) *Additional Learning Needs: A review of provision in Wales*. Caerdydd: Estyn.

Estyn. (2025). *Inspection questionnaires - Estyn*. Ar gael: <https://estyn.gov.wales/inspection-questionnaires/> (Darllenwyd: 7 Mawrth 2026).

Famly. (dim dyddiad). *An Early Childhood Platform*. Ar gael: <https://www.famly.co/> (Darllenwyd 10 Mawrth 2026).

Famly.co. (2026). *Your 3-minute tour | Famly*. Ar gael: <https://www.famly.co/about/video-tour> (Darllenwyd: 7 Mawrth 2026).

Florian, L. (2017) *The SAGE Handbook of Special Education*. 2il arg. Llundain: SAGE.

Florian, L. and Black-Hawkins, K. (2017)
'Exploring inclusive pedagogy', *Cambridge Journal of Education*, 47(2), pp. 1–17.

Foster Care Link. (2023). *Internet and Social Media Policy*. Ar gael: <https://fostercarelink.com/wp-content/uploads/2024/05/17b.-Internet-Social-Media-Policy-Jan-2024.pdf> (Darllenwyd: 11 Mawrth 2026).

Goodall, J. (2018) *Parental engagement and children's learning*. Llundain: Routledge.

GOV.UK (1974). *Health and Safety at Work etc. Act 1974*. Ar gael: <https://www.legislation.gov.uk/ukpga/1974/37/contents> (Darllenwyd: 5 Mawrth 2026).

Gov.uk (2021). *The children act 1989 guidance and regulations volume 2: Care planning, placement and case review*. Ar gael: https://assets.publishing.service.gov.uk/media/60e6fb43d3bf7f56896127e5/The_Children_Act_1989_guidance_and_regulations_Volume_2_care_planning_placement_and_case_review.pdf (Darllenwyd: 4 Mawrth 2026).

GOV.UK (2004). *Children Act 2004*. Ar gael: <https://www.legislation.gov.uk/ukpga/2004/31/contents> (Darllenwyd: 4 Mawrth 2026).

GOV.UK (2018). *Data Protection Act 2018*. Ar gael: <https://www.legislation.gov.uk/ukpga/2018/12/contents> (Darllenwyd: 5 Mawrth 2026).

GOV.UK. (2000). *Care Standards Act 2000*. Ar gael: <https://www.legislation.gov.uk/ukpga/2000/14/contents> (Darllenwyd: 11 Mawrth 2026).

GOV.UK. (2019). Safeguarding children and protecting professionals in early years settings: online safety considerations. Ar gael: <https://www.gov.uk/government/publications/safeguarding-children-and-protecting-professionals-in-early-years-settings-online-safety-considerations> (Darllenwyd: 11 Mawrth 2026).

Grocott, L. (2019). *Support children's mental health and wellbeing with our downloadable*. Ar gael: <https://educationendowmentfoundation.org.uk/early-years/mental-health-wellbeing> (Darllenwyd: 16 Mawrth 2026).

Hayes, D. (2020) *Foundations of primary teaching*. Llundain: Routledge. (Darllenwyd: 16 Mawrth 2026).

Kailash (2023). *Why employee surveys are important?* | CultureMonkey. [online] CultureMonkey Guides - Articles for People Leaders. Available at: <https://www.culturemonkey.io/guides/employee-engagement-survey-questions/engagement-survey/employee-survey-importance/>. (Darllenwyd: 16 Mawrth 2026).

Llywodraeth Cymru (2018) *Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru)*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. (Darllenwyd: 16 Mawrth 2026).

Llywodraeth Cymru (2021) *Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol Cymru*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. (Darllenwyd: 16 Mawrth 2026).

Llywodraeth Cymru (2022) *Cwricwlwm i Gymru: Canllawiau*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. (Darllenwyd: 14 Mawrth 2026).

Maciver, D., Rutherford, M., Arakelyan, S., Kramer, J.M. and Richmond, J. (2019) 'Participation of children with additional support needs in early years settings', *Early Child Development and Care*, 189(6), pp. 1–14. (Darllenwyd: 16 Mawrth 2026).

Mariusz Krzysztofek (2018). *GDPR : General Data Protection Regulation (EU) 2016/679 : post-reform personal data protection in the European Union*. Alphen Aan Den Rijn, The Netherlands: Kluwer Law International. (Darllenwyd: 5 Mawrth 2026).

Mcmahon, S. and Harvell, J. (2016). *The Early Years Handbook for students and Practitioners*. London: Routledge (Darllenwyd: 15 Mawrth 2026).

Mishra, S. (2024). *Enhancing parental Involvement in special education: the role of digital tools and platforms*. New Delhi: Bluerose Publishers. (Darllenwyd: 18 Mawrth 2026).

Murphy, M. and Tierney, C. (2020) 'Exploring parental engagement in early childhood education', *Educational Review*, 72(4), pp. 1–15. (Darllenwyd: 16 Mawrth 2026).

National Autistic Society (2025) Training resources. Ar gael: <https://www.autism.org.uk> (Darllenwyd: 14 Mawrth 2026).

NHS Wales (2024) All Wales sickness absence policy. Ar gael: <https://www.nhs.wales> (Darllenwyd: 14 Mawrth 2026).

Norwich, B. (2018) *Addressing tensions in inclusive education*. London: Routledge. (Darllenwyd: 16 Mawrth 2026).

NSPCC (2025). *Spotting the signs of child abuse*. Ar gael: <https://www.nspcc.org.uk/keeping-children-safe/spotting-#signs-child-abuse/> (Darllenwyd: 10 Mawrth 2026).

Odom, S.L., Thompson, J.L., Hedges, S., Boyd, B.A., Dykstra, J.R. and Duda, M.A. (2020) 'Technology aided interventions and instruction for adolescents with autism spectrum disorder', *Journal of Autism and Developmental Disorders*, 50(10), pp. 1–15. (Darllenwyd: 15 Mawrth 2026).

Social care wales (2022). *Regulation and inspection of social care in Wales*. Ar gael: <https://socialcare.wales/resources-guidance/information-and-learning-hub/regulation-and-inspection/overview> (Darllenwyd: 7 Mawrth 2026).

Social Care Wales (2017). *Code of Professional Practice for Social Care*. Ar gael: <https://socialcare.wales/cms-assets/documents/Code-of-Professional-Practice-for-Social-Care-web-version.pdf> (Darllenwyd: 5 Mawrth 2026).

Social Care Wales (2014). *Safeguarding Wales*. Ar gael: <https://www.safeguarding.wales/en/int-i/int-i-i1/i1-p1/> (Darllenwyd: 7 Mawrth 2026).

Social Care Wales. (2025.). *Recognising and responding to domestic violence and abuse*. Ar gael: <https://socialcare.wales/resources-guidance/social-workers/recognising-and-responding-to-domestic-violence-and-abuse-quick-guide-for-social-workers> (Darllenwyd 10 Mawrth 2026).

Tes. (2020). *The Safeguarding Company Authentication*. Ar gael: <https://login.thesafeguardingcompany.com/Identity/Account/Login?ReturnUrl=%2F> (Darllenwyd: 11 Mawrth 2026).

UK Government (2023) Staff-to-child ratios in early years childcare. Ar gael: <https://www.gov.uk> (Darllenwyd: 14 Mawrth 2026).

UNICEF. (1989). *A summary of the UN Convention on the Rights of the Child*. Ar gael: https://www.unicef.org.uk/wp-content/uploads/2019/10/UNCRC_summary-1_1.pdf (Darllenwyd: 10 Mawrth 2026).

United Nations (1989) *Convention on the Rights of the Child*. New York: United Nations. (Darllenwyd: 12 Mawrth 2026).

Wales Safeguarding Procedures. (dim dyddiad). *The duty to report a child at risk of abuse, neglect and/ or harm*. Ar gael: <https://safeguarding.wales/en/chi-i/chi-i-c2/> (Darllenwyd: 10 Mawrth 2026).

Webster, R. and Blatchford, P. (2019) *Maximising the impact of teaching assistants*. Llundain: Routledge. (Darllenwyd: 14 Mawrth 2026).

Welsh Government (2014). *Social Services and Well-being (Wales) Act 2014*. Ar gael: <https://www.gov.wales/sites/default/files/publications/2019-05/social-services-and-well-being-wales-act-2014-the-essentials.pdf> (Darllenwyd: 6 Mawrth 2026).

Welsh Government (2015). *The Well-being of Future Generations*. Ar gael: <https://www.gov.wales/well-being-of-future-generations-wales> (Darllenwyd: 7 Mawrth 2026).

Welsh Government (2018) *Foundation phase provision for three- and four-year-olds: guidance for local authorities in Wales*. Ar gael: <https://www.gov.wales> (Darllenwyd: 14 Mawrth 2026).

Welsh Government. (2017). *Parenting in Wales: Guidance on engagement and support*. (2017). Ar gael: <https://www.gov.wales/sites/default/files/publications/2019-10/parenting-engagement-and-support-guidance-for-providers.pdf> (Darllenwyd: 7 Mawrth 2026).

Welsh Government. (2023). *National Minimum Standards for Regulated Childcare for children up to the age of 12 years*. Ar gael:

<https://www.gov.wales/sites/default/files/publications/2025-09/national-minimum-standards-for-regulated-childcare.pdf>. (Darllenwyd: 14 Mawrth 2026).

Welsh Government. (2023). *National Minimum Standards*. Ae gael:

<https://www.gov.wales/sites/default/files/publications/2025-09/national-minimum-standards-for-regulated-childcare.pdf> (Darllenwyd: 14 Mawrth 2026).

Welsh Government. (2024). *A curriculum for funded non-maintained nursery settings*. Ar gael: <https://hwb.gov.wales/api/storage/1f581142-6b91-41e4-845d-3d6c7765df20/a-curriculum-for-funded-non-maintained-nursery-settings.pdf>

(Darllenwyd: 7 Mawrth 2026).

Welsh Government. (n.d.). *Guidance for schools to implement the information management strategy*. Ar gael: <https://www.gov.wales/guidance-schools-implement-information-management-strategy-html> (Darllenwyd: 7 Mawrth 2026).